ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Croydon Asbestos, Aberdaugleddau;Ffatri Deva Dogware, Gwynfe (1966 – 1970)

Cyfwelai: **VSW018 Enid Davies & Bronwen Wiliams**

Dyddiad: **15.1.14**

Cyfwelydd: **Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

There is an English summary at the end of the Welsh text

Enw: Enid Davies

Dyddiad Geni: 16.11.49

Ganed Enid yn ysbyty Priory yng Nghaerfyrddin. Roedd ei mam a'i thad yn ffermio. Ni fuodd ei mam allan yn gweithio erioed. 'Teulu oedd yn dod yn gynta' 'da mam'. Roedd ganddi bedair chwaer a dau frawd, ac Enid oedd babi'r teulu. Aeth i Ysgol Gynradd Gwynfe, a wedyn i Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri. Gadawodd yr ysgol pan roedd tua un ar bymtheng mlwydd oed.

Enw: Bronwen Williams

Dyddiad Geni: 20.8.48

Mae Bronwen yn chwaer i Enid. Ganed Bronwen adref ar y fferm yn Hirllwyn, Gwynfe. Fel Enid aeth i'r ysgol fach yng Ngwynfe, ac yna ymlaen i'r ysgol uwchradd yn Llanymddyfri. Roedd yn un ar bymtheg yn gadael yr ysgol.

Hoffai Enid fod wedi mynd i drin gwallt ar ôl gadael yr ysgol ond gan ei bod yn byw 'ar droed y Mynydd Du' nid oedd yr adnoddau yno i fynd unman. Nid oedd bysus, a neb yn y teulu yn gyrru, ond am ei brawd.

00.02.44: Dywedodd,
'O'dd dim cyfleusterau 'da ni i fynd i unman i gael aprentis na dim byd fel 'nny. O'n i'n limited beth o'n ni'n gallu neud wedyn 'nny.'

Nid oedd ganddi swydd benodol yn gadael yr ysgol. Roedd ei brawd yn byw yn Aberdaugleddau ar y pryd, a chynigodd ef y gallai Enid fynd i fyw ato a chwilio am swydd yno. Aeth i lawr i Aberdaugleddau i weithio ar fferm yn tynnu tatws. Roedd pawb a'u 'patsh' yno, a'r arian yn dda. Roedd chwaer yng nghyfraith Enid yn gweithio yno eisoes ac aeth yno gyda hi. Roedd y cyflog tua chant punt yr wythnos. Roedd yn hapus â'r gwaith ond yn gwybod taw gwaith tymhorol, dros dros ydoedd. Teimlai Enid bod lot mwy o swyddi ar gael yn ardal Aberdaugleddau a'r 'cyfleusterau' lot yn well – roedd bysus yn pasio heibio i ble roedd yn byw – a chlywodd bod swydd ar gael yn y Croydon Asbestos Company. Buodd yn gweithio'n y ffatri hon am ddwy flynedd. Roedd y ffatri yn cynhyrchu menyg lledr a menyg asbestos. Roedd Enid ei hun yn gweithio ar y menyg lledr fwyaf. Roedd pawb a'i swydd, 'rhai'n dodi bysedd arno, y fraich arno,' ac roedd Enid yn cau'r menyg ar ôl i bawb arall gorffen eu 'part' nhw.

00.05.27: Dywedodd,
'Mwya i gyd o'ch chi'n neud y dydd, mwya o gyflog o'ch chi'n ca'l.'

Roedd wedi clywed bod swydd ar gael yno wrth fynd i'r Ganolfan Waith yn Aberdaugleddau a gweld hysbyseb. Aeth i gael cyfweliad a chafodd y swydd. Teimlai'n nerfus yn dechrau'r swydd oherwydd nid oedd yn nabod llawer o bobol yn yr ardal. Cafodd rhyw bythefnos o hyfforddiant. Nid oedd yn gyfarwydd â gwnïo cyn hynny, ond roedd yn mwynhau'r gwaith, ac roedd y cyfleusterau'n dda. Ym marn Enid roedd dros dau gant o bobol yn gweithio yno bryd hynny. Merched ifainc oedd nifer helaeth o'r gweithwyr, ac nid oedd llawer o ddynion yn gweithio yno. Teulu Knowles oedd yn berchen ar y ffatri. Roedd dau fab gan y teulu a chafodd un o'r meibion hyn ei ladd mewn damwain car tra bod Enid yn gweithio yno - achlysur ofnadwy yn ôl Enid.

Roedd y cyflog yn dda, a gwaith ffatri yn talu'n well na gwaith siop. Roedd bonws yn cael ei dalu os oedd y merched yn cynhyrchu dros darged penodol. Roedden nhw'n disgwyl iddynt gau 32000 o fenyg yr wythnos a thalwyd bonws am unrhyw waith ar ben y rhif yma. (*Mae'n cywiro'r rhif yma ar ôl y cyfweliad gan ddweud mai 3200 oedd hi'n eu gwneud.)* Yn ôl Enid, roedd yn cymryd llai na munud i gau maneg. Os oedd y peiriant yn gweithio'n iawn roedd e'n waith rhwydd. Teimlai Enid nad oedd yr un cyfleoedd ar gael yng Ngwynfe. Nid oedd bys yno. Os nad oeddech yn gyrru car 'o'dd dim gobeth 'da chi.'

Gyda'i brawd yn Lower Hill Street, Aberdaugleddau roedd Enid yn byw tra bod hi'n gweithio'n y ffatri hon. Nid oedd yn talu rhent yno, ac roedd hi'n llwyddo i gynilo tipyn o'i chyflog. Roedd hi'n gallu mynd allan i gymdeithasu yn llefydd fel y Masonic Hall yn Aberdaugleddau, i weld grwpiau fel yr Hollies, a'r Tremeloes. Roedd hiraeth arni am adref weithiau, pan glywai hanes ei ffrindiau, ond mae'n berson siaradus sy'n gwneud ffrindiau'n eithaf rhwydd. Ymgyfarwyddodd â byw mewn ardal Seisnigaidd yn weddol o rwydd. Roedd yn mynd "adref" tuag unwaith bob dau fis. Roedd yn teimlo'n eithaf cartrefol yn Aberdaugleddau. Roedd ei mam a'i thad yn falch ei bod wedi cael swydd ac roedd hithau'n edrych ymlaen i weithio yno hefyd, ac ennill cyflog. Gan ei bod yn ardal ddieithr iddi, nid oedd yn nabod neb arall yn y ffatri cyn mynd yno. Roedd wedi dysgu sut i wneud y gwaith yn eithaf hawdd. Roedd bocs yn cyrraedd ar conveyor belt gyda'r menyg oedd angen eu gwneud, byddai'n gwneud y gwaith arnynt a'i danfon yn ôl. Nid oedd Enid yn symud llawer oddi ar ei sedd yn ystod diwrnod o waith, heblaw am yn ystod ei brêc i gael cinio, ond ar y llaw arall nid oedd yn gwastraffu amser yn mynd i ôl gwaith achos roedd hwnnw'n dod ati. Byddai'n gwneud y gwaith yn eistedd lawr.

Roedd yn dechrau'n y ffatri am wyth o'r gloch yn y bore ac yn gorffen am bump o'r gloch y bore. Roedd brêc o hanner awr neu awr amser cinio a brêc bore i'r sawl oedd eisiau, yn enwedig y rheiny oedd yn ysmygu! Roedd y rhai oedd eisiau cario ymlaen yn gallu gwneud hynny.

Sylvie oedd enw'r fenyw a oedd yn oruwchwylwraig dros Enid, ac roedd hi'n rhwydd i ddod ymlaen gyda hi. Roedd goruwchwylwyr gwahanol ar jobs gwahanol, er enghraifft yn pacio. Mae Enid yn credu i'r gweithwyr cael eu trin yn dda. Nid oedd yn gweld llawer o fos mawr y ffatri. Roedd gwraig y bos, Mrs Knowles, yn gweithio yn yr adran lle byddai'r menyg yn cael eu stretsho, yn barod i'w gwerthu. Roedd Enid yn mwynhau eistedd lawr i weithio (yn enwedig ar ôl cyfnod yn pigo tatws!) ac yn gwrando ar y radio. Roedd y radio ymlaen drwy'r dydd, ond yn rhyfedd i Enid, nid oedd neb yn canu wrth eu gwaith yno.

00.15.05: Dywedodd,
'O'dd neb fel se nhw â lleisie i ganu rhywffordd. O'ch chi byth yn clywed neb yn canu 'na chi'n gwbod.'

Roedd sŵn tua hanner cant o beiriannau gwnïo'n mynd drwy'r dydd, ond nid yw Enid yn teimlo roedd yn ormodol.

00.15.39: Dywedodd am y sŵn,
'Fi'n cofio o'n i wedi neud ffrind, Marian Picton, o'dd 'i enw hi ac oedd hi'n gwitho yn neud rhyw ddarn arall o'r faneg te, a amser o'dd Gene Pitney'n dod arno (y radio), o'dd y ddwy ohonon ni'n hoffi Gene Pitney, fi'n cofio, ac oedd hi wastod yn edrych lan arno i pan o'dd y gan 'na'n dod arno, ac o'n i fel sen ni'n *connecto* â'n gilydd fel 'na. Ond o'n i ddim yn siarad â'n gilydd. O'n i rhy bell, dim ond rhywun tu bla'n a tu ôl o'ch chi'n gallu gweud rhywbeth wrtho ife.'

Roedd Enid wedi cyfarfod â Marian a merch arall o'r enw Catrin wrth ei bod yn dal y bws i gael dod i'r gwaith yn y bore. Mae Enid dal mewn cysylltiad â Marian.

Dechreuodd weithio yn Croydon Asbestos tua 1966 achos aeth Enid yno mwy neu lai ar ôl gadael ysgol. Gorffennodd yr ysgol ar ôl tymor yr hâf, aeth i dynnu tatws ym mis Hydref a dechrau gweithio'n y ffatri tua mis Tachwedd. Ar ei diwrnod cyntaf roedd yn ceisio dyfalu pa fath o waith y byddai'n ei wneud. Nid oedd yn gwybod eto taw gwaith yn gwnïo ydoedd. Nid yw Enid yn ystyried ei bod yn gallu gwnïo fel y cyfryw heddiw, ond roedd y sgiliau a ddysgodd bryd hynny'n ddigonol ar gyfer y swydd.

Roedd tua dau gan o weithwyr yno, o ferched ifainc fwyaf. Ffatri newydd ydoedd, wedi bod ar agor tua thair neu bedair mlynedd cyn bod Enid yn dechrau yno. Parhau yn gwneud yr un gwaith wnaeth Enid tra bod hi yno, er mae'n credu y gallai fod wedi gofyn i symud pe na bai'n hapus yn ei gwaith.

Pacio a sicrhau bod y bocsys yn mynd lle y dylen nhw oedd gwaith y dynion a weithiai yno. Roedd y bocsys yn anferth a defnyddiai'r dynion 'fork lifts' i'w symud. Roedd y menywod priod oedd yno lot yn hŷn, wedi magu plant a'u plant bellach yn yr ysgol uwchradd, neu'r plant wedi gadael ysgol.

Roedd pawb yn cael codiad cyflog yr un pryd, a phawb ar yr un arian ar wahan i'r goruwchwylwyr. Roedd bod yn annibynnol yn bwysig i Enid am ei bod yn byw gyda'i

brawd, a dim eisiau bod yn faich arno. Byddai wedi codi, cael brecwast a wedi gadael yn y bore cyn bod ei brawd a'i wraig wedi codi'n y bore. Os oedd y merched yn gwneud mwy na'r hyn yr oeddynt fod i'w gwneud, roeddynt yn gallu ennill 'premium bond' yn ychwanegol i'w cyflog. Cafodd Enid tua deg ei hun, a byddai hwnnw'n cyrraedd ar ddiwedd y mis.

Roedd Undeb yn y ffatri a rhai'n cynrychioli'r gweithwyr yn y cyfarfodydd, ond ni fu Enid i un ohonynt erioed. Cred Enid bod aelodaeth o'r undeb yn ofynnol. Roedd pawb yn cael ei drin yn deg, ac nid oedd lle i 'gonan' gan neb.

00.23.36: Dywedodd,
'O'n i wedi cael 'yn codi ar ffarm, mor bell wrth bopeth a pawb, o'dd e'n neis i ga'l cwmni pawb arall. O'dd 'yn fywyd i'n llawn achos bod cymint o bobol rownd i chi yn ots i sen i gatre.'

Roedd Enid yn gwishgo 'overall' i'r gwaith a oedd wedi ei ddarparu gan y ffatri, 'overalls bach pert, gyda bib fan hyn, a brown o'dd y lliw.' Gallai wisgo sgert neu drowsus gyda hwnnw wedyn. Roedd Enid a'r merched eraill yn golchi'r 'overall' eu hunain. Nid oedd y gwaith yn beryglus fel y cyfryw, ac nid yw Enid yn cofio am neb yn dal eu bys o dan nodwydd y peiriant erioed, dim ond am fan anafiadau gyda rhai'n dal eu bysedd ar y siswrn ac roedd bocs cymorth cyntaf yno ar gyfer y pwrpas hwn. (Nid oedd nyrs yn gweithio yno.)

Pan ofynnwyd i Enid am y rheolau'n y ffatri dyweodd, 'O'dd neb bron yn torri'r rheole. O'ch chi byth yn clywed am neb yn cael stwr.' Roedd y cyfleusterau'n dda ac os nad oedd rhywun yn teimlo'n hwylus roedd lle i fynd i eistedd. Roedd dynion a menywod yn cael defnyddio'r gegin fach er mwyn cael gwneud te, ond roedd Mr a Mrs Knowles yn defnyddio'r swyddfa. O ran rheolau Iechyd a Diogelwch yn y ffatri, gwelai Enid pobol yn dod o gwmpas ond nid oedd yn deall eu swyddogaeth. Efallai taw pobol a oedd am brynu'r menyg oeddynt, nid yw Enid yn siwr. Byddai Mr Knowles yn dod rownd gyda phwy bynnag oedd yn ymweld â'r ffatri. Nid oedd ymwelwyr yn siarad â'r gweithwyr beth bynnag.

Roedd y ffatri yn braf o ran tymheredd. 'Roedd hi'n dwym, yn gysurus neis 'na. Ffatri fodern oedd hi a oedd newydd gael ei hadeiladu. Nid oedd llawer o gyfle i siarad yno achos roedd 'conveyor belt' yn mynd rownd a rownd, ac roedd yn rhaid 'stico at y gwaith' felly. Os oeddech chi eisiau siarad roedd yn rhaid aros tan y brêc, yn hytrach na siarad pan oeddech chi'n gweithio.

Yn ystod y brêc byddai cryn dipyn o drafod am fandiau fel y Tremeloes a'r Who, a'r grŵps oedd yn dod i'r Neuadd Masonic yn Aberdaugleddau, ac yn sefyll mewn gwesty ar y ffrynt. Roedd Enid yn mynd i'r pwll nofio pan roedd y tywydd yn braf, ac wedi 'cymysgu' gyda llawer o bobl yn y dre. Weithia ele hi i'r Moon and Sixpence am goffi ac i wrando ar y jukebox.

<u>Bronwen</u>
Roedd Bronwen yn gweithio'n Deva Dogware ar yr adeg hon. Cyn hynny, roedd wedi bod yn gweithio'n Llangadog yn edrych ar ôl plant. Aeth y teulu hwnnw allan i Awstralia, ac roeddynt wedi gofyn i Bronwen i fynd gyda nhw, ond gwrthod gwnaeth Browen, er taw dim am dair blynedd roeddynt yn mynd. Roedd yn caru ar y pryd, ac aeth i weithio yn Deva Dogware yn lle hynny. Roedd yn hoff o'r teulu, ond yn meddwl y byddai gyda'r teulu drwy'r amser pe byddai gyda nhw'n Awstralia.

Enid

O ran yr amodau gwaith yn Aberdaugleddau nid ellir fod wedi cael gwell. Roedd y bws yn y bore yn mynd â hi reit tu allan i'r ffatri. Bws y gwaith oedd hwn yn stopio deg llath o'r drws. Nid oedd mynd ar y bws yn y bore yn sbort, roedd hi'n gynnar yn y bore a phawb wedi blino gormod. Ar y ffordd yn ôl efallai byddai lot mwy o hwyl. Nid yw Enid yn credu ei bod wedi dioddef unrhyw sgil effeithiau o weithio'n Croydon Asbestos, er gwaethaf yr holl sôn heddiw am afiechydon sy'n gysylltiedig ag asbestos. Roedd y llwch yn 'dala chi' pan oedd Enid yn gwnïo'r menyg asbestos. Ond nid yw Enid yn credu iddi fod yno'n ddigon hir i ddioddef unrhyw effeithiau yn sgil y gwaith hwn. Nid oedd llawer o dynnu coes yn y ffatri. Saeson oedd yn Aberdaugleddau, ac nid oedd ganddynt hiwmor y Cymry. Pum niwrnod yr wythnos y byddai'n gweithio'n Croydon Asbestos, yn dechrau am wyth ac yn gorffen am bump. Nid oedd gwaith gor-amser i Enid ar y dydd Sadwrn, er byddai cyfle i'r rhai oedd yn yr adran bacio. Nid oedd sustem shiffts yn y ffatri, ond roedd yn rhaid clocio mewn yno. Nid oedd gweithwyr yn dueddol o gyrraedd yn hwyr achos bod pawb yn cyrraedd gyda'i gilydd ar y bws. Roedd eisiau tua chwarter awr ar ôl i bawb i gyrraedd ar y bws er mwyn i bawb i gael amser i glocio mewn, mewn un llinell hir.

Roedd cantîn yno, ond nid oedd yn gwneud bwyd. Roedd pawb yn dod â bwyd eu hunain. Nid yw Enid yn cofio unrhyw anghydfod yn y ffatri o gwbl. Roedd yn ffatri newydd a phawb yn eithaf bodlon â'r cyfleusterau.

Roedd pawb yn cael pythefnos o wyliau a'r ffatri'n cau am yr wythnosau hynny yn ystod yr hâf. Roeddynt yn cael amser rhydd pan oedd gwyliau banc yn ogystal. Nid oedd hanner cymaint o wyliau banc bryd hynny. Ni fyddai Enid yn mynd i ffwrdd yn ystod ei gwyliau. Byddai'n mynd i lawr i'r traeth gyda Joan, ei chwaer yng nghyfraith, neu'n mynd i rywle fel Amroth Castle am y dydd. Byddai'n hoffi mynd i'r 'pictiwrs' gyda'i gilydd (roedd brawd Enid yn gweithio shifft nos ar y tygs.) Nid oedd Enid yn ymwybodol bod y merched eraill yn ffrindiau agos a fyddai'n mynd i bob man gyda'i gilydd. Roedd ei chyflogwyr yn ddigon parod i roi amser off o'r gwaith am resymau personol, os oedd angen. Er bod Enid yn dal y bws i'r gwaith roedd yn ddigon agos i gerdded pe byddai angen. Mae'n cofio bod y bws methu mynd â nhw adref un diwrnod a gorfodd y merched i gyd gerdded adref. Roedd cymaint ohonyn nhw'n cerdded roeddynt yn 'llenwi'r hewl'. Nid oedd Ystad Ddiwydiannol Thornton, lle roedd y ffatri, yn y dref ei hun, roedd allan yn y wlad, ac roedd ffatrïoedd eraill ar bwys Croydon Asbestos. Doughty oedd enw un ohonynt (ffatri a oedd yn gwneud 'washers'.) Er bod ffatrïoedd eraill nid yw Enid yn cofio cyfarfod â neb o ffatri arall.

00.43.40: Dywedodd,
'O'n nhw'n galw fe Little England Beyond Wales, ac o'dd e yn – Saeson chi'n gwbod.'

Roedd y gweithwyr eraill yn dod o Aberdaugleddau, Heyking, Hwlffordd. Codai Enid am hanner awr wedi chwech/chwarter i saith, ac roedd Tony Blackburn ar y radio. Roedd llawer o ffatrïoedd eraill yn cael eu hadeiladu ar yr ystad ddiwydiannol yn ystod y cyfnod bu Enid yn gweithio'n Croydon Asbestos, ac felly heb agor eto.

Mae Enid yn sôn am yr adeg hon fel adeg gyffrous yn ei bywyd.

00.45.22: Dywedodd, 'O'dd e fel sen i'n canol Llunden. ... Amser chi'r oedran 'na chi moyn lot o activity, chi'n moyn lot o bethach yn digwydd yn ych bywyd chi.... Ar y pryd o'dd e jest beth o'n i ishe.'

'Nôl des i, fi ddim yn siwr achos bod ffatri i ga'l yn Gwynfe, ond na, o'dd hi ddim 'run peth o gwbwl, o'dd hi'n wahanol, yn llwyr wahanol.'

Nid yw Enid yn cofio unrhyw weithgareddau cymdeithasol yn gysylltiedig â'r ffatri'n Aberdaugleddau. Falle bod rhyw dwrnament darts gyda merched yn eu hardaloedd nhw ond ni fuodd Enid yn ymwneud â'r rhain. Adeg y Nadolig byddai parti, ond nid oedd Enid yn awyddus i fynd, gan bod hyn yn golygu dal bysus gwahanol. Roedd Enid yn ffrindiau mawr gyda Margaret Maguire a weithiai yn y ffatri, ac yn hoffi mynd i'r dansys, ond nid oedd yn hoffi mynd i'r discos, ac roedd yn well ganddi bod yng nghwmni pobl dawel. Roedd Margaret yn gweithio'n Hwlffordd ac mae Enid dal mewn cysylltiad gyda hi.

Cafodd mab y ffatri ei ladd mewn damwain car ac mae hyn wedi aros yn y cof i Enid. Roedd ganddo 'sports car' coch, ac yn grwt golygus, a chafodd pawb tipyn o sioc, gan ei fod wedi bod yn gweithio'n yr un ystafell â hi. Roedd Enid yn hen gyfarwydd â chodi'n gynnar ers ei dyddiau ysgol felly roedd codi i fynd i'r gwaith ddim yn broblem, er efallai mai dyma'r agwedd yr oedd yn ei hoffi lleiaf am y gwaith yn y ffatri.

Nid yw Enid yn cofio'r union reswm am adael y ffatri. Buodd yn gweithio yno am ddwy flynedd a hanner. Daeth adref ar ôl gorffen yno, ac aeth i weithio'n Deva Dogware yng Ngwynfe. Roedd hwnnw'n gyfnod gwahanol dros ben iddi.

<u>Bronwen</u>
Roedd Bronwen wedi gorffen gweithio'n Deva Dogware erbyn bod Enid yn mynd i weithio yno. Ond roedd Bronwen wedi gofyn i'r bos am swydd i Enid ar ei rhan. Pan roedd Bronwen yn gofalu am y plant roedd yn mwynhau'r gwaith. (Roedd y tad yn fet, a'r fam yn ddoctor.) Roedd menyw arall yn gweithio i'r teulu yn glanhau. Pan ddechreuodd yn Deva Dogware, roedd yn nabod pawb yno.

<u>Enid</u>
Pan aeth Enid i Deva Dogware, roedd yn naturiol ei bod yn cymharu'r ffatri fach hon gyda'r ffatri fawr yn Aberdaugleddau. Nid oedd dim cyfleusterau'n Deva Dogware, a theimlai ei bod wedi dychwelyd i rywbeth oedd lot gwaeth, ond y ffrindiau oedd yn gweithio yno oedd yn hwyluso'r swydd. Erbyn i Enid fynd i Deva Dogware roedd wedi pasio ei phrawf gyrru, ac felly'n annibynnol, yn gallu mynd a dod i'r gwaith fel roedd hi eisiau. Roedd yn gallu galw'n Siop y Bont ar y ffordd adref. Nid oedd wedi arfer cael bwyd fel 'fish fingers' a 'beefburgers' ond roedd y bwydydd hyn yn rhywbeth newydd.

Gwaith Enid yn Deva Dogware oedd dodi'r rings ar y 'tsains' er mwyn gwneud y 'slip collars' i gŵn. Roedd y cadwyni'n gallu bod yn hyd gwahanol – 16, 18, 20, 22 modfedd, ar gyfer cŵn o faint gwahanol. Wedyn oedd hi'n dodi'r ring yn y feis, a'r ring ar y 'tsain' ac o'ch chi'n cael ring. Ar ôl gorffen byddai'n dodi nhw ar farau a oedd yn siâp 'V', a wedyn eu weldo nhw. Ar ôl eu weldo nhw byddai'n gadael iddynt oeri cyn eu stretsho nhw er mwyn siecio bod y weldo'n iawn. Byddai'n clymu nhw at ei gilydd er mwyn eu danfon lawr llawr lle byddent yn cael eu 'plêto' a'u golchi. Felly roedd hi'n cyflawni sawl rhan o'r broses.

Buodd hefyd yn gwneud 'swivels' lawr llawr. Fel arfer y bechgyn oedd yn gweithio lawr llawr, ond roedd un ohonynt wedi gadael felly ymgymerodd Enid â'r gwaith hwn. Roedd Enid yn mwynhau yng nghanol yr olew a'r annibendod.

00.57.10: Dywedodd,
'O'ch chi moyn gweld yr end product o hyd, beth o'ch chi wedi neud er mwyn ca'l neud yn siwr bod e'n iawn.'

Mae gŵr Enid yn weldo nawr, yn defnyddio trydan, ond mae Enid yn credu bod weldo â nwy llawer yn well. Ar ôl i Enid fod yn weldo gyda nwy nid oedd modd gweld lle oedd y ddwy ochor o'r 'tsains' wedi cael eu rhoi at ei gilydd.

00.58.16: O ran adeilad, roedd yn hen felin ar dri llawr. Roedd hi'n oer iawn yno, ac os nad oedd hi'n weldo roedd yn gwisgo cot yn y gwaith.

Bronwen
00.58.53: Yn ôl Bronwen, nid oedd dim byd yn lan yno. Roedd llwch dros y lle i gyd. Nid oedd neb yn gyfrifol am lanhau yno, felly byddai'r merched yn gwneud y gwaith hwnnw, er nid oedd y bos yn gofyn iddynt am wneud. Os na fyddent yn glanhau'r llawr byddent yn damshgel dros y gwastraff ar y llawr.

Enid
00.59.40: Roedd y coleri yn cael eu hallforio i'r Almaen, Belg a'r Iseldiroedd. Roedd enw da gyda'r ffatri am wneud coleri ar gyfer cŵn yr heddlu. Roedd rhaid gwneud yn siwr bod rhain yn iawn, achos eu bod yn gwbod pwy oedd y cwsmer!

Roedd cyflog Enid wedi cwympo ar ôl iddi ddychwelyd i Gwynfe, ond nid oedd yn gwario cymaint o arian yn byw yng nghefn gwlad ta beth.

Mae Bronwen ac Enid yn cofio ennill tair punt yr wythnos, ac Enid yn sôn am y cyflog yn mynd i fyny i bum punt. Roedd ffrind Enid, Adelma, yn gweithio yno ar y 'triple collars' pan ddechreuodd hi'n y ffatri. Roedd Enid, Adelma a ffrind arall o'r enw Sylvia'n canu gyda'i gilydd. Erbyn bod Enid yn dechrau yno, roedd ganddynt radio'n y ffatri. Buon nhw'n gwrando ar gystadleuaeth Wimbledon ar y radio. Roeddynt yn canu tipyn yn y gwaith, caneuon oedd yn y siartiau fel 'Pearl's a singer.' Roedd Bert y bos yn dipyn o 'ffrind' iddynt. Roedd ganddo fan mini glas a weithiai pan fyddai'n mynd i rwle, roedd yn dychwelyd yn y mini anghywir, er bod hyn yn golygu byddai wedi gadael ei gerbyd ei hun (a'i gŵn) yn rhywle. Roedd Crufts yn achlysur arbennig yn y ffatri a byddai cryn dipyn o baratoi. Roedd Enid a Sylvia yn mynd lan gyda nhw'n y fan gyda'r nwyddau. Roedd tua chwech i ddeg o stondinau gyda Deva Dogware yn y sioe yn gwerthu nwyddau, ac roedd pobl 'bwysig' yn dod i siarad â'r perchenogion, er enghraifft Robert Maxwell, a ddeuai i eistedd ar y stondin gyda nhw. Tra bod Sylvia ac Enid yn gwerthu'r 'tsains' byddai'r perchenogion a Robert Maxwell yn siarad ac yfed. Roedd y sioe yn para am dri diwrnod. Byddai Enid yn mynd lan ar y nos Sul.

Nid yw Bronwen nac Enid yn cofio unrhyw un yn y ffatri a oedd yn methu gwneud y gwaith. Roedd pawb yn 'gwneud eu rhan.' Roedd y merched yn gydwybodol iawn ac yn gwneud y gwaith os oedd y bos yno ai peidio. Roedd Bert yn hoff o'u clywed yn canu.

Nid oedd pawb yn y ffatri'n weldo. (Ni fu Bronwen yn weldo.) Roedd rhai o'r gweithwyr yn paratoi'r gwaith ar gyfer y sawl oedd yn weldo. Roedd Enid yn awyddus i ddysgu pob agwedd o'r broses gynhyrchu. Dynion oedd yn plêto am fod hyn yn waith trwm. Mae Bronwen ac Enid yn credu roedd y dynion yn cael mwy o arian na'r merched oherwydd bod eu gwaith nhw'n fwy 'technical'. Buodd Enid hefyd yn gweithio yn yr ystafell ledr yn y

ffatri lle roedd yn torri'r lledr mewn i goleri, rhoi 'dye' ar yr ochrau, a rhoi haearn drostynt er mwyn eu selio. Roedd y coleri yma'n cael eu danfon allan i weithwyr eu gwnïo yn y cartref. Yr hyn oedd Enid yn mwynhau mwy na dim oedd ei bod yn gallu symud o un job i'r llall.

Pan roedd Bronwen yn gweithio'n y ffatri roedd tua deg o weithwyr yn gweithio yno, ond pan roedd Enid yno efallai roedd llai o weithwyr yno, a dyna paham roedd yn gallu symud o un job i'r llall o fewn y ffatri, ond buodd dim mwy na phymtheg yn gweithio yn y ffatri erioed. Merched ifainc oedd yn gweithio yno fwyaf, merched heb blant ifainc. Os oedd merched â phlant bach eisiau gwaith roeddynt yn cael gwaith 'stisho' i wneud adref.

Mae Enid yn cofio cael codiad cyflog bob mis Ebrill.

01.13.20: Roedd Bronwen yn mwynhau'r cyflog. Roedd yn cael cyflog tebyg yn gofalu am y plant, ond roedd yn rhaid iddi gysgu mewn ar gyfer y swydd honno, felly roedd yr oriau lot yn hirach.

Roedd mam a thad Bronwen ac Enid yn falch iawn eu bod yn gweithio, yn enwedig o ystyried eu bod yn byw allan yn y wlad.

O ran 'percs' yn y gwaith – gwnaeth Enid felt i ŵr Bronwen, a buodd y belt ganddo am flynyddoedd mawr.

Pe bai problem gydag un o'r merched byddent yn gofyn i "Mr Bert". Roedd yn gallu trwsho unrhyw beiriant neu declyn ei hun. Nid oedd y merched yn gweld gymaint o'i frawd, Les Thomas, a weithiai yn y swyddfa, ac roedd ganddynt fwy o ofn hwnna na Bert.

Nid oedd gwisg arbennig i'r gwaith. Gwisgai'r merched hen ddillad ac ni ddarparwyd unrhywbeth i warchod y merched, na'u dillad, rhag y sbarcs o'r weldo ar wahan i gogls am y llygaid.

Gallai'r gwaith wedi bod yn beryglus, ond roedd y merched yn ymwybodol o'r peryglon potensial. Roedd eu dwylo wedi caledi at y gwaith, fel dwylo dynion ac edrychai'r merched ymlaen at fynd adref ar ddiwedd y dydd i ymolchi.

I Enid roedd y cyfleusterdau yn Deva Dogware yn dipyn o gyferbyniad i Croydon Asbestos. Roedd tyllau'n y llawr, ac ambell ystum yn hedfan uwch eu pennau weithiau. Roedd hi'n reit dywyll yno ac ar ddiwrnod glawiog roedd hi'n eithaf diflas yno. Nid oedd lle glan na lle wedi'i neilltuo yno iddynt i fwyta bwyd. Eisteddent ar focsys tsains neu ble bynnag oedd ar gael. Yn amal iawn byddent yn eistedd tu allan i fwyta, os oedd y tywydd yn caniatáu.

Nid oedd yn swnllyd iawn yno. Roedd y gwresogydd a oedd yno yn gwneud sŵn, ac roedd arogl paraffîn yn y ffatri. Nid oedd yn lle 'iach'i weithio, yn ôl Enid, yn enwedig yn y gaeaf pan roedd y gwresogydd yn rhedeg. (Dyma'r unig ffurf o wresogi oedd yn y ffatri.) Dim ond pan oedd yn angenrheidiol byddent yn rhoi'r gwres ymlaen. Roedd y merched yn mwynhau er gwaetha'r amodau gweithio. Roedd Enid wedi gweithio o dan amodau lot gwell yn Aberdaugleddau ond roedd y cwmni yn Deva Dogware yn gwneud y gwaith yn fwy hwylus. Roedd un ferch o Langadog wedi dechrau yno ond wedi rhoi'r gorau i'r gwaith ar ôl tua mis achos bod y gwaith yn rhy frwnt. Roedd hi'n ystyried bod y gwaith yn wael i'w hiechyd, ond roedd Enid yn falch i gael gwaith.

Roedd arolygwyr Iechyd a Diogelwch yn dod i'r ffatri, ond byth yn ymweld â'r merched. Mynd i'r swyddfa oedden nhw, i siarad â'r Thomases, cael coffi neu 'drinc bach'. 'O'n nhw'n eitha hapus gyda beth o'n nhw'n clywed gyda nhw.'

Roedd un o'r merched o'r enw Sylvia yn dod â radio i'r gwaith er mwyn chwarae cerddoriaeth a phasio'r amser. Cymraeg oedd iaith y ffatri ar wahan i ambell berson oedd yn ddi-Gymraeg. Fynycha roedd y sgwrs yn troi o amgylch 'pwy oedd yn mynd 'da pwy,' a beth oedd ymlaen ac ymhle.

Roedd un o'r merched o'r enw Adelma yn ysmygu ond byddai'n mynd tu allan er mwyn gwneud hynny. Yn y ffatri cyfarfu â'i gŵr, ac mae'r ddau dal yn briod ac yn byw tu allan i Landeilo.

Nid ydyw Enid yn teimlo ei bod wedi dioddef unrhyw effeithiau hir dymor ar ôl gweithio'n y ffatri, ond pan fyddai annwyd arni roedd hi'n anodd achos bod y lle mor frwnt. Roedd rhai'n chwarae triciau ar ei gilydd yn y ffatri weithiau, fel dodi rhywbeth uwchben y drws ac yna byddai hwnnw'n cwympo pan oedd y drws yn agor, ond dim byd cas. Roedd tynnu coes yn rhan o'r diwrnod, fel rhoi rhywbeth ar sêt Mr Thomas cyn ei bod e'n dod mewn.

Priododd Enid pan roedd hi yno, ac yna cafodd blentyn. Aeth tua pedair blynedd heibio a phenderfynodd mynd nôl i Deva Dogware achos roedd 'mamgu'yn gofalu am y mab. Ni fuodd y ffatri'n rhedeg am lot fawr o amser ar ôl hynny. Roedd Mr Les yn ei wythdegau erbyn hynny a bu farw, yna Mr Bert.

Roedd angen clocio mewn yn y ffatri, a'r merched yn clocio'i gilydd mewn achos bod un eisiau mynd i'r tŷ bach efallai. Weithiai byddai'r merched yn mynd i gael bwyd wedi'i goginio yn y 'Three Horse Shoes' gerllaw. Awr oedd ganddynt i ginio, ond os oedd angen gorffen ordor byddent yn mynd yn ôl i'r gwaith yn gynt. Roeddynt yn awyddus i blesio'r perchenogion achos eu bod nhw wedi rhoi gwaith iddynt.

Roedd y ffatri ar gau am wyliau'r banc, ac os oedd y perchenogion, y Thomases yn mynd i ffwrdd roedd yn rhaid i'r ffatri gau hefyd. Roedd yn bosib cael amser yn rhydd o'r gwaith am resymau personol, ond ni fyddent yn cael eu talu am y diwrnod hwnnw. Ni fyddent yn gofyn am amser off o'r gwaith os oedd angen gorffen ordor mawr, er parch i'r sawl oedd yn rhedeg y ffatri.

Roedd Bronwen yn cael lifft i'r gwaith pan roedd yn gweithio'n Deva Dogware gyda merch o'r enw Nita. Mae Bronwen ac Enid dal mewn cysylltiad gyda merched eraill oedd yn gweithio yno – wedi bod yn yr un ysgol, a dilyn ei gilydd i'r ffatri.

Yn ystod adeg pan nad oedd car gan Enid roedd Mr Thomas yn danfon un o'r bechgyn o'r ffatri i fynd i'w ôl hi i'r gwaith, a phan nad oedd lifft gartref gyda'r merched byddai'r Thomases yn amal yn mynd â nhw adref.

Nid oedd gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu trefnu yn y ffatri ond roedd y merched yn gweld ei gilydd y tu allan i oriau gwaith beth bynnag – roedd Bronwen ac Enid yn chwiorydd a'r lleill yn canu gyda'i gilydd.

Mae Enid yn cofio bod y gwaith wedi trefnu parti Nadolig iddynt yn rhywle, a phartnerion y gweithwyr yn cael mynd, a'r gwaith oedd yn talu am y parti.

Gadawodd Bronwen y ffatri ar ôl iddi briodi a mynd yn feichiog gyda'i phlentyn cyntaf. Ar ôl tua tri mis roedd yn teimlo'n sal a theimlai nad oedd yn lle da i fod i fenyw oedd yn disgwyl babi. Teimlai'n hapus ei bod yn gadael achos nid oedd yn hwylus ar y pryd. Nid oedd yn credu bod lot o obaith dychwelyd ar ôl cael babi – roedd plentyn ganddi, ac nid oedd yn gyrru. Yn hwyrach, bu'n gweithio'n y gegin yng Nglanmorlais, sef cartref hen bobl, ac yn mwynhau'r gwaith.

Buodd Enid mewn sawl swydd ar ôl gorffen yn y ffatri e.e. Llandeilo Builders a gofalu am ei mam.

Buodd Bronwen yn Deva Dogware tua blwyddyn a hanner (o 1966 ymlaen). Buodd Enid yno am gyfnod o tua tair blynedd a hanner i gyd a gorffen yno oherwydd iddi gael cynnig fwy o arian yn Llandeilo Builders. Erbyn hyn roedd y gang i gyd wedi mynd ffordd eu hunain, ac roedd y ffatri ar fin cau. Ar ôl gweithio'n Llandeilo Builders aeth i weithio fel nyrs (auxilary).

Mae'r ddwy yn disgrifio'r cyfnodau y buont yn gweithio'n Deva Dogware fel amser hapus, er nad oedd mewn gwirionedd y lle gorau i weithio achos cyflwr y lle.

English summary

Croydon Asbestos, Milford Haven; Deva Dogware, Gwynfe (1966 – 1970)

Interviewee: VSW018 Enid Davies & Bronwen Wiliams

Date: 15.1.14

Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales

Enid was born on 16th November, 1949 in the Priory Hospial in Carmarthen. Her parents were farmers. Her mother never went out to work.

'It was the family that came first with Mam.'

She had four sisters and two brothers, and Enid was the youngest sibling. She attended Gwynfe primary school and then went on to Ysgol Pantycelyn in Llandovery. She left school when she was sixteen

Bronwen was born on 20th August, 1948. (She is Enid's sister.) She was born at home on the farm in Hirllwyn, Gwynfe. Like Enid, she attended Gwynfe Primary School and then Ysgol Pantycelyn School in Llandovery. She too was sixteen years old when she left.

Enid would have liked to have become a hairdresser after leaving school but because she lived at 'the foot of the Black Mountain' in the countryside, the resources didn't exist to enable her to do this. There were no buses to transport her, and apart from her brother, nobody in the family drove.

00.02.44: She said, 'We didn't have the facilites to go anywhere in order to follow an apprenticeship or anything like that. We were limited as to what we could do.'

She didn't have a job to go to when she left school but her brother was working in Milford Haven and he offered her the chance to come and stay with him so that she could look for work down there. She went to Milford Haven and got work picking potatoes. Enid's sister-in-law was already working there. The wages were approximately a hundred pounds a week. She enjoyed the work but knew it was only seasonol. She realized that there were other opportunities in Milford and heard that there were vacancies in the Croydon Asbestos Company. The factory produced leather and asbestos gloves and she worked there for two years. Enid worked mainly on the leather gloves. Everybody had their specific job – some attaching the fingers, for example – and Enid's job was closing the gloves after everybody else had finished their job.

00.05.27: She said, 'The more you did in a day, the more you earned.'

She'd heard about the vacancies at the Job Centre in Milford Haven. She went for an interview and got the job. She felt nervous initially, because she didn't know many people in the area. She wasn't an experienced sewer but she received approximately a fortnight's training, and the facilities there were good. Enid thinks there were approximately two hundred people working there at the time, the majority of whom were young women. The Knowles family owned the factory. They had two sons and one of them was killed in a car crash while Enid was working there, an event that affected all the workers there.

Wages at the factory were good, much better than shop work. Bonuses were paid if the girls produced over their set targets. They expected her to finish 32000 gloves a week. (After the recording Enid later corrected this figure to 3200.) It took less than a minute to close a glove, and it was easy work. Enid felt the same opportunities didn't exist in Gwynfe due to a lack of transport.

Enid didn't pay rent to her brother while she stayed with him in Milford Haven so she could save quite a bit of money. She went out to socialise in places like the Masonic Hall where she saw groups like the Hollies and the Tremeloes. Occasionally, she would feel homesick, especially when she heard about what her friends back home were up to but she's a talkative person and made new friends easily. She got used to living in an Anglicised place quite easily as well too. She went home to Gwynfe about once every two months although she felt quite at home in Milford. Her parents were glad she'd had a job. The work was easy to pick up. The boxes arrived on a conveyor belt together with the gloves that needed finishing. Enid didn't move much during the day, apart from during her lunch break, and didn't have to waste production time in going to fetch work as it would come to her. She did her work seated.

Her work day started at eight o'clock in the morning and ended at five o'clock. The lunch break was half an hour long, and there was a morning break for those who wanted it, especially those who smoked although some preferred to carry on with their work.

Enid's supervisor was called Sylvie and Enid got on well with her. Different people supervised different jobs, for example the packing. Enid thinks that the workers were treated fairly. They didn't see the boss very often. His wife, Mrs Knowles, worked in the section where the gloves were stretched, and ready to be sold. The radio would play all day but nobody sang as they did their work.

00.15.05: She said,
'They didn't have singing voices there, for some reason. You never heard anybody singing there.'

There were approximately fifty machines at work throughout the day but Enid didn't think that the factory was too noisy.

00.15.39: She said of the noise,
'I remember I'd made a friend, Marian Picton was her name and she made another part of the glove, and when Gene Pitney came on [the radio], and both of us liked Gene Pitney, she always looked up at me when his song came on, and it was as if we connected with each other. But we didn't talk to each other. We were too far away. You could only talk to the person in front of you or behind you.'

As well as Marian, Enid had met a girl called Catrin who caught the same bus as her in the morning. Enid is still in contact with Marian.

Enid started working in Croydon Asbestos circa 1966 which was shortly after she'd left school. (She left school after the summer term, went to pick potatoes in October, and then started in the factory in November.) She had no idea before she started working there that she would be sewing.

There were approximately two hundred workers there, and the majority of them were single women. The factory was new, and had only been open for three or four years. Enid did the same job while she was there, although she could have moved if she'd wanted to.

The men packed and ensured that the boxes were sent to the correct place. The boxes were huge and the men used fork lift trucks. The married women who worked there were usually ones who's children were in secondary school or had left home.

Everybody was given a pay rise at the same time, and everybody was on the same rate, apart from the supervisors. Being independent was important to Enid because she lived with her brother, and didn't want to be a burden. She would have got up, had breakfast and left before her brother and sister-in-law had got up.

If the girls had done more than their quota, they could win a premium bond on top of their wages. Enid won about ten of these, and they would arrive at the end of the month.

There was a union in the factory but Enid never went to meetings. She thinks that membership was mandatory but nobody had cause to complain anyway.

00.23.36: She said,
'I was raised on a farm, isolated from everything, so it was nice to have other people's company. My life was full because there were so many people around me, unlike at home.'

The factory provided Enid with an overall which Enid would wash herself. It was a brown, pretty one with a bib at the front. She wore a skirt or trousers with it. The work wasn't dangerous and Enid can't remember any accidents happening. (There was no nurse working there.

Enid said that nobody broke the rules in the factory and can't remember hearing anybody being told off. She saw visitors coming round occasionally who might have been Health and Safety people but she's not sure as they never spoke to the workers. It was a modern factory and the facilities were good. There wasn't much opportunity to chat because the conveyor belt went round and round so they would have to wait until break time. They would chat about groups like the Who and the Tremeloes. In her spare time she liked going to the swimming baths when the weather was good, and she some times went to the Moon and Sixpence for a coffee and to listen to the jukebox.

<u>Bronwen</u>
Bronwen was working in Deva Dogware at this time. Before this, she had been working in Llangadog, looking after children. That family went to Australia and asked Bronwen to go with them but she declined, even though they only intended staying for three years.

<u>Enid</u>
Enid speaks highly of the working conditions in Croydon Asbestos. The work bus she caught in the morning took her to right outside the factory. It would be more fun on the way back when the workers had finished work. Enid doesn't think she has suffered any side effects from working at Croydon Asbestos despite the noise and the links with asbestos. There wasn't much leg-pulling and joking there. The workforce was English, and didn't have the humour of the Welsh.

She worked five days a week. There was no over-time offered on the weekend apart from the people who worked in packing. There was no shift system, and they had to clock in and out. Workers weren't usually late because they caught the work bus. It took about a quarter of an hour after the arrival of the buses for everybody to clock in.

There was a canteen there but they didn't make food so everybody brough their own.

The factory shut down for a fortnight during the summer and the workers had paid holidays. They were also off on bank holidays although there weren't as many back then. Enid would go to the beach with her sister-in-law. Enid remembers that the work bus couldn't take them home one day so they all walked home together. Thornton Industrial Estate was outside town and there were other factories there as well as Croydon Asbestos.

The other workers were from places like Milford Haven, Heyking and Haverfordwest. Enid would get up at half past six in order to get to work on time. There were many other factories being built during this time.

00.45.22: She said, 'It was as if you were in the middle of London ... When you're that age you want a lot of activity, you want to have a lot of things going on in your life ... At the time it was just what I wanted.'

Enid doesn't remember any social events being organized by people at the factory. There was a party at Christmas but Enid couldn't go because she had no transport. Enid like going to dances with her friend Margaret with whom she is still in contact.

After Enid left she returned to Gwynfe to work in Deva Dogware. (She can't remember why she left the factory in Milford Haven.)

Bronwen
Bronwen had finished in Deva Dogware by the time that Enid went there but it was Bronwen who had asked the boss for a job on Enid's behalf. Bronwen had enjoyed looking after children. (The father was a vet, and the mother was a doctor.) Another woman worked for the family as a cleaner. When she started in Deva Dogware, she knew everybody there.

Enid
When Enid went to Deva Dogware, she couldn't help but compare it to the factory in Milford Haven. There were no facilities in Deva Dogware, and it was as if she'd returned to work in coditions that were a lot worse, but the friends that she had there made it enjoyable. By this time she had passed her driving test, and was therefore independent, and could come and go as she pleased. It meant she could call into Siop y Bont on the way home and buy foods like fish fingers and beef burgers, which were new foods to her.

Enid's work in Deva Dogware was putting the rings on the chains in order to make the dog slip collars. The chains could be different lengths – 16", 18", 20" and 22" – for different-sized dogs. She describes the process of making the chains, including welding. She also made swivels downstairs in the factory. It was usually the men who worked downstairs but one of them had left and Enid took his place. She enjoyed herself in the oil and mess.

00.58.16: The factory building was a three storey old mill. It was very cold, and if she wasn't welding she would wear a coat to work.

Bronwen
00.58.53: It was a dirty place to work – there was dust everywhere. Nobody was responsible for cleaning it, so the girls took this on, even though the boss didn't ask them to do it. If they hadn't cleaned the floor they would have been stepping over all the debris produced when making the chains.

Enid
00.59.40: The collars were exported to Germany, Belgium and the Netherlands. The company had a good reputation and made collars for police dogs.

Enid's rate of pay had fallen when she returned to Gwynfe to work in Deva Dogware but she wasn't spending as much either.

Bronwen and Enid remember earning three pounds a week, and Enid talks of the pay increasing to five pounds. Enid and two of her friends who also worked there – Adelma and Sylvia – sang together. They would sing along to the radio. The boss, Bert, was very friendly. Crufts was a special time in the factory and they would be very busy preparing for it. Enid and Sylvia would go up in the van with the merchandise. Deva Dogware had between six and ten stalls there and people like Robert Maxwell would come and sit with them. The show would last for three days.

The girls in the factory were very conscientious and would do their work regardless of whether Bert was there or not. He enjoyed hearing them singing.

Enid also worked in the leather room where she cut the leather into collar, put the dye on the sides, and pressed them in order to seal them. These collars would be sent out to the homes of the outworkers to be sewn. Enid enjoyed moving from one job to another.

When Bronwen worked at the factory there were about ten people working there but this number had decreased by the time Enid started there which is why she could move from one job to another. It was mainly young, single women working there, although there were women paid to stich at home.

Enid remembers having a pay rise every April.

01.13.20: Bronwen enjoyed earning a wage. The pay was similar to the one she earned for looking after the children but she had to sleep in as part of that job so the hours were much longer.

Bronwen and Enid's parents were glad that they had jobs, especially as they lived out in the country.

If the girls had a problem they would ask "Mr Bert". He could fix any machine or gadget himself. They didn't see as much of his brother, Les Thomas, who worked in the office, and they were more scared of him.

The girls wore old clothes to work and wore goggles for the welding. They were aware that the work could be dangerous. Their hands had hardened, like men's hands and threy would look forward to going home so they could clean themselves up.

The facilities (or lack of facilities) in Deva Dogware were in stark contrast to the modern facilities in Croydon Asbestos. There were holes in the floor, and the odd bat flying around above their heads occasionally. It was dark there and on a rainy day it was quite miserable there. They didn't have a clean place to eat. They'd sit on boxes or sit outside if the weather permitted.

It wasn't very noisy there. The heater made a noise, and there was a smell of parafin. It wasn't a healthy place to work.

Health and Safety inspectors visited the factory but never came round to see the girls. They would go to the office to have a coffee and a drink with the Thomases, and would leave quite happy after speaking with them.

Sylvia, Enid's friend, would bring her own radio to work for them to pass the time. Welsh was the predominant language of the factory. Talk in the factory was usually about who was going out with whom, and what was on in the area.

Adelma smoke and would go outside for a cigarette. She met her husband in the factory and is still married to him.

The workers played tricks on each other, such as putting something above the door that would fall on somebody's head when they opened it. Leg pulling was part of the day, and they would put something on Mr Thomas's seat before he came in.
Enid got married during the time that she was there, and then she had a child so she finished at the factory. After abour four years she decided to go back to Deva Dogware because 'granny' offered to look after her child. The factory didn't continue for long after that. Mr Les was in his eighties by then and died soon after, and so did Mr Bert.

The workers had to clock in and out. The girls would sometimes go and have lunch in the Three Horse Shoes, nearby. They only had an hour, but if they had a rush order to complete they would return to work before the hour was up. They were eager to please the owners because they were grateful to have the work.

The factory would be closed for bank holidays, and if the Thomases were going away. It was possible to have time off for personal reasons, but that meant not being paid for that day. Nobody would ask for time off work if a large order needed finishing, out of respect for those who owned the factory.

Bronwen would get a lift to the factory when she was working in Deva Dogware. Both Bronwen and Enid are still in contact with the girls they worked with there, who had also been in school with them.

During the time that Enid didn't have a car, Mr Thomas would send one of the boys from the factory to fetch her, and he would quite often give the girls a lift home.

The factory itself didn't arrange any social events, but the girls saw each other outside work anyway because they sang together.

Enid remembers a Christmas work's do being arranged when everything was paid for by the company.

Bronwen left the factory after marrying and getting pregnant with her first child. After the first three months of the pregnancy she was feeling ill and thought that the factory wasn't a good place for her to be working in her condition. She was glad to finish because she felt unwell. She didn't enterain the thought of returning after having a baby, as she had to look after the child, and she didn't drive. Later on, she worked in the kitchen in Glanmorlais, and old people's home, and enjoyed the work.

Enid worked in several different places after finishing in Deva Dogware, for example, Llandeilo Builders.

Bronwen worked in Deva Dogware for about a year (from 1966). Enid was there for approximately three and a half years altogether and left because she'd been offered more work in Llandeilo Builders. By this time, the gang had all gone their separate ways. After leaving Llandeilo Builders she went to work as an auxilary nurse.

Both Enid and Bronwen describe the period they worked there as a happy time, even though it probably wasn't the healthiest place to work.